OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1244 (Cy.152)

IECHYD MEDDWL, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 8 Mai 2012

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45, 46 a 52(2) o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(**1**).

Mae drafft o'r offeryn hwn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 52(5)(b) o'r Mesur, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) i'r graddau y maent yn ymwneud â darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur, yn union ar ôl i adran 45 (Rhan 1: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol) o'r Mesur ddod i rym ar 8 Mai 2012; a

(b) at bob diben arall, yn union ar ôl i adran 46 (Rhan 3: y pŵer i sicrhau darpariaeth ranbarthol) o'r Mesur ddod i rym ar 6 Mehefin 2012.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.

Darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur

3.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), er mwyn sicrhau darpariaeth ranbarthol yn unol â'r hyn a ddarperir yn adran 45 o'r Mesur mae Rhan 1 (gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol

(**1**) 2010 mccc 7.

lleol) o'r Mesur wedi ei datgymhwyso o ran ardaloedd yr awdurdodau lleol a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae Rhan 1 ac i'r graddau y mae angen hynny mae Rhannau 5 (cyffredinol) a 6 (amrywiol ac atodol) o'r Mesur wedi eu cymhwyso o ran ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol a nodir ac a grwpir gyda'i gilydd fel rhanbarthau yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(3) At ddibenion Rhan 1 o'r Mesur mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol i bob rhanbarth wedi eu dyrannu yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Nid yw adrannau 6 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau ar gyfer cleifion cofrestredig mewn gofal sylfaenol), 7 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal sylfaenol eraill) ac 8 (dyletswyddau i gynnal asesiadau iechyd meddwl sylfaenol: atgyfeiriadau gofal iechyd meddwl eilaidd) wedi eu datgymhwyso at ddibenion paragraff (1) nac wedi eu cymhwyso at ddibenion paragraff (2) ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â'r cynllun y cyfeirir ato yn adran 2(4) neu 2(5) (cynlluniau ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol) i'r rhanbarth yn adrannau 7(6) ac 8(2) a (5).

Darpariaeth ranbarthol ar gyfer Rhan 3 o'r Mesur

4.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), er mwyn sicrhau darpariaeth ranbarthol yn unol â'r hyn a ddarperir yn adran 46 o'r Mesur mae Rhan 3 (asesiadau ar ddefnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd) o'r Mesur wedi ei datgymhwyso o ran ardaloedd yr awdurdodau lleol a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae Rhan 3 ac i'r graddau y mae angen hynny mae Rhannau 5 (cyffredinol) a 6 (amrywiol ac atodol) o'r Mesur wedi eu cymhwyso o ran ardaloedd cyfun yr awdurdodau lleol a nodir ac a grwpir gyda'i gilydd fel rhanbarthau yng ngholofn 1 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(3) At ddibenion Rhan 3 o'r Mesur mae'r partneriaid iechyd meddwl lleol i bob rhanbarth wedi eu dyrannu yng ngholofn 2 o'r tabl yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Nid yw adrannau 19 (trefniadau ar gyfer asesu defnyddwyr blaenorol o wasanaethau iechyd meddwl eilaidd), 22 (hawl i asesiad) a 29 (penderfynu man preswylio arferol), wedi eu datgymhwyso at ddibenion paragraff (1) nac wedi eu cymhwyso at ddibenion paragraff (2) i'r graddau y maent yn ymwneud â'r canlynol—

(i) hawl oedolyn i gael asesiad; a

(ii) penderfynu man preswylio arferol yr oedolyn hwnnw er mwyn sefydlu'r hawl i gael asesiad ar y sail bod man preswylio arferol yr oedolyn hwnnw mewn ardal awdurdod lleol.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mai 2012